

EICH HAWL I DDEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE

Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac o ganlyniad iddo mae gan bawb:

- ✓ rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg
- ✓ hawl i siarad a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru yn ddirwysr, heb ymyrraeth na dioddef anfantais – gan gynnwys **ym mhob gweithle a phob sector**

Mewn sefydliadau sydd o dan ddyletswyddau Safonau'r Gymraeg mae gennych hawliau penodol yn eich gweithle.

SUT I GAEL HELP WRTH DDEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE



GOFYNNWCH I'CH CYFLOGWR pa wasanaethau maent yn eu cynnig yn Gymraeg.



SIARADWCH GYDA'CH CYNRYCHIOLYDD UNDEB os yw hi'n anodd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu i ofyn am gyfleoedd ac amser i ffwrdd o'r gwaith i ddysgu Cymraeg ac uwchsgilio.



YMGYRCHWCH I GYNYDDU PROFFIL yr iaith Gymraeg yn eich gweithle drwy'ch undeb.



CWYNWCH WRTH GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – yn ddiennw ac am ddim – mae dyletswydd ganddo i ystyried eich cwyn ac i geisio sicrhau tegwch i chi.



DYSGU CYMRAEG – Efallai y gallwch ddysgu Cymraeg drwy ddefnyddio Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) p'un ai a ydych yn aelod o undeb ai peidio.



AWGRYMWCH BOD EICH UNDEB YN YMUNO â Fforwm y Gymraeg TUC Cymru ac yn cydweithio gyda ni i ddatblygu ei ddarpariaeth Gymraeg ei hun.



MAE TUC CYMRU A CHYMDEITHAS YR IAITH YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GEFNOGI'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE

TUC Cymru yw llais Cymru yn y gweithle. Mae Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros ddyfodol yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymru (www.cymdeithas.cymru).

- ✓ Gyda'n gilydd rydym yn ceisio diogelu rhyddid ac hawliau gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'n nodau gwaith teg, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.
- ✓ Rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i weithwyr ddysgu Cymraeg ac uwchsgilio.
- ✓ Ac rydym am weld hawliau Cymraeg ychwanegol yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu dros amser a'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio ym mhob gweithle yng Nghymru.



Am fwy o wybodaeth ynghylch eich hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ewch i tuc.org.uk/cy/Cymraeg

